# CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL – 13 MEHEFIN, 2024

**ADRODDIAD GAN: Y Trysorydd**

**TESTUN: Adroddiad am Flwyddyn Ariannol 2023/2024**

**ADRODDIAD AR GYFER: Gwybodaeth a Phenderfyniad**

## DATGANIAD O GYFRIFON 2023/2024

Ynghlwm, fel atodiad i'r adroddiad hwn, mae'r datganiad cyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024. Bydd yr Aelodau'n nodi bod gwariant, yn ystod y flwyddyn, wedi bod yn uwch na'r incwm o £3,718.66. Mae hyn o'i gymharu â £8,969.44 o incwm yn fwy na gwariant yn 2022/2023. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros y newid hwn isod. Mae'r cyfrifon yn cynnwys taliadau a dderbyniwyd gan chwe CYSAG, yn ymwneud â 2022/2023 a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, derbyniwyd tanysgrifiadau gan 16 CYSAG a derbyniwyd taliadau gan 4 CYSAG pellach ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yn anffodus, mae'n rhaid i mi adrodd bod aelodaeth CCYSAGauC bellach yn cynnwys 20 CYSAG/CYS yn hytrach na 22 gan fod CYSAGau/CYSau Sir Benfro ac Abertawe wedi tynnu eu haelodaeth yn ôl. Y gobaith yw y byddant yn ailystyried eu sefyllfa ac yn ailymuno â CCYSAGauC yn y dyfodol gan ei bod yn bwysig i CCYSAGauC allu siarad dros a chynrychioli buddiannau pob CYSAG/CYS yng Nghymru. Dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda balans o £54,472.23 a daeth i ben gyda balans o £50,753.57. Mae cyllid CCYSAGauC, felly, yn parhau i fod mewn cyflwr iach ac mae lefel y cyllid sydd ar gael i CCYSAGC, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig, yn galonogol. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd gwariant sylweddol yn digwydd, yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025, o ganlyniad i Gynhadledd Cymdeithas CYSAGau Cymru sydd i ddod.

### a) Derbyniadau

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2023/2024 fu'r tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAGau/CYSau. Bydd yr Aelodau'n cofio y penderfynwyd, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 CCYSAGauC y dylai'r tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2023/2024 aros ar £495.00 yr un faint ag ar gyfer 2022/2023 oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd a brofir gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at incwm o £7,920.00, sy'n cynrychioli'r 16 tanysgrifiad a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n bleser adrodd bod y 4 tanysgrifiad CYSAG sy'n weddill bellach wedi'u talu. Felly, gallaf adrodd bod pob un o'r 20 tanysgrifiad ar gyfer 2023/2024 bellach wedi dod i law. Roedd y derbyniadau hefyd yn

cynnwys y taliad hwyr o £2,970.00 sy'n cynrychioli'r 6 tanysgrifiad o £495.00 yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2022/2023.
Y ffynhonnell incwm flynyddol reolaidd arall ar gyfer CCYSAGauC yw Llog Banc, sef £94.96 yn 2023/2024, cynnydd o £74.30 ar £20.66, sef y swm a dderbyniwyd yn 2022/2023. Mae'n galonogol nodi'r cynnydd yn y llog a delir ar Gyfrif *Business Money Manager* CCYSAGauC ond, fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n amlwg y bydd cryn amser cyn derbyn incwm sylweddol drwy log banc.

**b) <u>Gwariant</u>**

Mae'r meysydd gwariant yng nghyfrifon 2023/2024 fel a ganlyn:-

Cyfanswm cost galw cyfarfodydd oedd £3,359.02 ac mae hwn wedi'i rannu'n £1,415.43 ar gyfer cyfieithu dogfennau a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, £143.88 ar gyfer prynu Trwydded Zoom ar gyfer cyfarfodydd, £1,299.45 ar gyfer cadw cofnodion, a £500.26 i gyflenwi ar gyfer aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i'w alluogi i fynychu cyfarfodydd. Mae'r gost hon yn cymharu â gwariant o £2,350.43 yn 2022/2023 ac yn uwch oherwydd yr angen i gyflenwi eleni, prynu'r drwydded Zoom ar gyfer cyfarfodydd, a chynnwys costau cyfieithu ar y pryd o fewn costau cyfieithu. Y llynedd, roedd cost cyfieithu yn cynnwys cyfieithu dogfennau yn unig ond, gyda'r defnydd o Zoom, mae bellach yn bosibl darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar-lein.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod trefniadau ysgrifenyddol CCYSAGauC wedi parhau'n ddigyfnewid. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cydlynu wedi parhau gyda'r rôl o oruchwylio'r swyddogaeth ysgrifenyddol ond heb yr ystod lawn o weithgareddau ysgrifenyddol. Mae'r swydd hon yn denu honorariwm o £1,500.00 a thelir hwn fel rhandaliadau tymhorol fel arfer. Cefnogir yr Ysgrifennydd Cydlynu gan Ysgrifennydd Cynorthwyol ac mae'r swydd hon hefyd yn denu honorariwm o £1,500.00. Mae'r costau ysgrifenyddol wedi'u lleihau trwy ddefnyddio ffyrdd electronig o gyfathrebu ac ni wnaed unrhyw hawliadau am dreuliau ysgrifenyddol yn ystod y flwyddyn. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cofnodion hefyd yn denu honorariwm o £1,500.00 ond nid yw'r swydd wedi'i llenwi ers ymadawiad deiliad blaenorol y swydd. Gydag ymadawiad yr Ysgrifennydd Cofnodion prynwyd gwasanaethau unigolyn a oedd yn fodlon cofnodi'r cyfarfodydd, o bell, o gofnodion y cyfarfodydd. Cyfanswm costau'r gwasanaeth hwn am y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd £1299.45 ac maent yn disgyn yn hawdd o fewn yr honorariwm a fyddai wedi'i dalu i Ysgrifennydd Cofnodion. Mae'r taliad yn ymwneud â swm gwirioneddol y gwaith dan sylw, yn hytrach nag honorariwm. Mae CCYSAGauC yn ffodus i allu sicrhau gwasanaethau

unigolyn sy'n gallu darparu cofnodion o ansawdd uchel o'r cyfarfodydd a, hyd yn hyn, mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda.
Cyfanswm Treuliau'r Trysorydd oedd £43.90, sy'n debyg iawn i £44.24, sef lefel y gwariant yn 2022/2023. Mae'r treuliau hyn yn ymwneud yn bennaf â chostau postio a deunydd ysgrifennu.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd cyfanswm o £4,321.30 i swyddogion ac unigolion a oedd yn cynnal adolygiad anffurfiol o'r meysydd llafur cytûn, ar ran Cymdeithas CYSAGau Cymru. Comisiynwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru a'i gyflawni gan CCYSAGauC ar eu rhan. Swyddogion Llywodraeth Cymru a gysylltodd â CCYSAGC gyda chais i'r gwaith hwn gael ei wneud sy'n arwydd o'u parch mawr at gymhwysedd a phroffesiynoldeb CCYSAGauC. Bydd yr aelodau'n cofio bod CCYSAGauC wedi derbyn taliad o £4,250.00 gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023 am y gwaith hwn a dyma un o'r rhesymau dros y tanwariant sylweddol yng nghyfrifon y llynedd. Er bod y taliadau hyn wedi cyfrannu at y gorwariant eleni, derbyniwyd y cyllid i ad-dalu CYSAG Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £1,856.40 ar Fynychu Cynadleddau. Mynychodd dau o swyddogion Cymdeithas CYSAGau Cymru Gynhadledd NASACRE yn Llundain, er mwyn cynnal cysylltiadau â sefydliadau tebyg yn Lloegr. Rhoddir adborth bob amser pan fydd swyddogion yn cynrychioli CCYSAGauC mewn cynadleddau. Yn ogystal, hysbysebwyd lle wedi'i ariannu'n llawn trwy'r CYSau yng Nghynhadledd EFTRE (Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol) yn Rhufain. Cytunodd CCYSAGauC i ariannu costau llety a theithio'r athro a wnaeth gais llwyddiannus am le ac mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigur uchod.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £1,000.00 ar Fodiwlau Adnoddau Dysgu Proffesiynol ar gyfer CGM (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg), a gomisiynwyd i Gymdeithas CYSAGau Cymru gan Lywodraeth Cymru a derbyniwyd £1,250.00 gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith hwn. Derbyniwyd y swm hwn ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2023/2024 ac felly bydd yn cael ei gynnwys fel incwm yng nghyfrifon 2024/2025.

Talwyd y swm o £860.00 am gymorth gwefan. Mae hyn yn cynnwys y tair blynedd o 1/1/24 i 31/12/26. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod gan CCYSAGC wefan newydd ardderchog bellach sy'n codi proffil CCYSAGauC ac sy'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ogystal ag Addoli ar y Cyd ar gyfer CYSAGau/SACau, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o adroddiad y Trysorydd y llynedd bod Taliadau Banc bellach yn cael eu codi ar Gyfrif Elusennol CCYSAGC. Mae ffi fisol o £5.00 ar y cyfrif hwn a chodir £0.40 y siec am sieciau a delir i mewn ac allan o'r cyfrif dros y cownter. Cyfanswm y taliadau ar gyfer 2023/2024 oedd £74.00 o gymharu â £70.00 yn 2022/2023.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd cyfanswm o £189.00 ar Danysgrifiadau Aelodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:-

- Cyngor AG (Medi 2023 – Awst 2024) - £99.00
- EFTRE( 2023) - £90.00.

Roedd hyn £100.00 yn llai nag yn 2022/2023 pan dalwyd 3 tanysgrifiad.

**Gwahoddir aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r datganiad cyfrifon atodedig.**

<u>**TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2024/2025**</u>

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol fesul CYSAG/CYS ar gyfer aelodaeth o CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025, bydd yr aelodau'n cofio y gwnaed penderfyniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC 2001 y byddai'r tanysgrifiad i CCYSAGauC yn y dyfodol yn cynyddu yn flynyddol, yn unol â chwyddiant. Dilynwyd yr arfer hwn yn flynyddol hyd at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd pryd y penderfynwyd peidio â chynyddu'r tanysgrifiad ond ei gadw ar £495.00 yr un lefel ag ar gyfer 2022/2023. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd a brofwyd gan Awdurdodau Lleol.

Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod cydbwysedd sylweddol yn cael ei gynnal er mwyn i CCYSAGauC allu, yn hyderus, drefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach a chynnal mwy o brosiectau. Fodd bynnag, yng nghyfarfod diweddar Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, yng ngoleuni'r amgylchiadau ariannol anodd parhaus a brofir gan Awdurdodau Lleol, penderfynwyd na ddylid codi'r tanysgrifiad i CCYSAGauC ar gyfer 2024-2025. Felly,

**ARGYMHELLIR bod y tanysgrifiad blynyddol fesul CYSAG/CYS ar gyfer aelodaeth o CCYSAGauC, yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025, yn parhau ar £495.00, sef yr un lefel â thanysgrifiadau 2023/2024 a 2022/2023.**

<u>**TALU TREULIAU**</u>

Bydd yr Aelodau'n cofio bod y trefniadau canlynol ar gyfer talu treuliau naill ai wedi'u cytuno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020 CCYSAGC neu wedi'u cytuno wedyn: -

- taliadau o 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n ymgymryd â busnes ar ran CCYSAGauC lle nad ydynt yn gallu hawlio gan eu CYSAGau/CYSau lleol ac ad-daliad ar yr un lefel ar gyfer siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;

- ad-dalu costau parcio gwirioneddol i swyddogion, lle'r oeddent yn gysylltiedig â chynnal busnes CCYSAGauC;
- lle defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu prisiau tocynnau trên/bws gwirioneddol hyd at lefel y pris safonol ar y ddealltwriaeth y manteisir ar drefniadau arbed lle bynnag y bo modd;
- ad-dalu costau cynhaliaeth rhesymol mewn perthynas â swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr yng nghyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-dalu costau gwirioneddol llety dros nos ar y ddealltwriaeth fod y rhain yn gostau rhesymol;
- mewn perthynas ag athrawon yn cael eu rhyddhau o'r ysgol i wneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd CCYSAGC, bydd CCYSAGauC yn ariannu hyd at un diwrnod llawn o gyflenwi. Os bydd hyn yn profi'n annigonol, rhaid cysylltu'n gynnar â'r Trysorydd, a fydd yn cael y disgresiwn i gytuno ar lefel uwch o gyflenwi mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd;
- nid yw aelodau CYSAGau/ACAau ac eraill sy'n mynychu prif gyfarfodydd CCYSAGauC yn gymwys i hawlio treuliau oddi wrth CCYSAGauC ond dylent hawlio oddi wrth eu CYSAG/SAC eu hunain neu'r corff y maent yn ei gynrychioli;
- bydd yr Ysgrifennydd Cydlynu yn derbyn honorariwm blynyddol o £1,500.00. Os cymerir y swydd gan athro neu athrawes mewn swydd, yna telir cyflenwi yn ychwanegol at yr honorariwm a threuliau presennol (teithio, llety a chynhaliaeth angenrheidiol). Telir yswiriant cyflenwi i'r ysgol a thelir honorariwm i'r swyddog unigol;
- bydd yr Ysgrifennydd Cynorthwyol yn derbyn honorariwm blynyddol o £1,500.00. Os cymerir y swydd gan athro neu athrawes mewn swydd, yna telir cyflenwi yn ychwanegol at yr honorariwm a threuliau presennol (teithio, llety a chynhaliaeth angenrheidiol). Telir yswiriant cyflenwi i'r ysgol a thelir honorariwm i'r swyddog unigol;
- os caiff ei benodi, bydd Ysgrifennydd Cofnodion yn derbyn honorariwm blynyddol o £1,500.00 ynghyd â threuliau, ynghyd â llety dros nos os bydd angen. Os bydd y trefniant presennol yn parhau, bydd CCYSAGauC yn talu anfonebau a gyflwynir gan yr unigolyn sy'n paratoi cofnodion o gofnodion cyfarfodydd yn unol â lefel y gwaith dan sylw;
- mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn gallu hawlio treuliau oddi wrth CCYSAGauC am fynychu cyfarfodydd pwyllgor gweithredol pan na allant hawlio treuliau o rywle arall;
- mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, sy'n athrawon mewn swydd, yn gymwys i hawlio costau cyflenwi er mwyn eu rhyddhau i fynychu cyfarfodydd. Dylai'r cais gael ei gyflwyno i'r Trysorydd gan yr ysgol sy'n cyflogi a dylai gynrychioli'r costau gwirioneddol;
- er bod rhywfaint o aelodaeth gyffredin, mae PYCAG yn endid ar wahân ac ni all CCYSAGauC ariannu eu cyfarfodydd na'u treuliau;

- lle mae aelodau PYCAG yn gwneud gwaith ar ran CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn cyfrannu at eu treuliau. Rhaid cyflwyno ceisiadau, ymlaen llaw, i'r Trysorydd a fydd yn cael disgresiwn i'w hystyried mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ;
- bydd CCYSAGauC yn talu ffioedd i bobl fynychu cyfarfodydd neu wneud gwaith ar ddiwrnodau gwaith proffesiynol os cytunwyd ar hyn ymlaen llaw. Rhaid cyflwyno ceisiadau, ymlaen llaw, i'r Trysorydd, a fydd yn cael disgresiwn i'w hystyried mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd. Disgwylir y bydd tystiolaeth o'r gwaith a wnaed a gallai hwn fod yn bapur neu'n adroddiad yn dilyn y cyfarfod a fynychwyd.

Felly

**ARGYMHELLIR cymeradwyo'r trefniadau uchod ar gyfer 2024/2025.**